

Vault
094
M557
1850
23

SYLWADAU

AR

YR HYN SYDD O RAN,

A'R

HYN SYDD BERFFAITH.

“Cariad byth ni chwmp ymaith: eithr pa un bynag ai prophwydoliaeth-
au, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflana.
Canys o tan y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwyo. Eithr pan ddole
yr hyn sydd BERFFAITH, yna yr hyn sydd o RAN a ddileir.”—] Cow,
xiii, 8—10.

GAN J. DAVIS, MERTHYR.

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD, CYHOEDDWYD, AC AR WERTH GAN J. DAVIS,
NANTYGWENITH, GEORGETOWN.

1850.

[Pris 1/6c.

UPB

YR HYN SYDD O RAN,

A'R

HYN SYDD BERFFAITH.

“Cariad byth ni chwmp ymaith: eithr pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddislana. Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo. Eithr pan ddele yr hyn sydd BERFFAITH, yna yr hyn sydd o RAN a ddileir.”—1 COR. XIII, 8—10.

Yn gymmaint â bod llawer o anwybodaeth yn ffyn y wlad mewn perthynas i'r “hyn sydd o ran” a'r “hyn sydd berffaith,” byddai yn dda yn mhawb i wneyd ymchwiliad teg yn eu cylch, fel y gellir dyfod i wybodaeth am danynt. Y farn gyffredin yw fod yr hyn sydd o ran wedi cael ei ddileu, ac nad yw prophwydoliaethau, tafodau, a gwybodaeth yn anghenrheidiol mwyach; ond mewn perthynas i'r “hyn sydd berffaith,” y mae llawer o wahanol farnau yn cael eu coleddu. Y mae iawn ddealltwriaeth ynghylch y pethau hyn o bwys mawr; canys, os nad yw yr hyn sydd berffaith wedi dyfod i fodoliaeth, mae yn rhesymol i feddwl y dylai y doniau ysbrydol fodoli yn yr eglwys yn awr fel cynt. Y mae yn amlwg ddiigon fod prophwydoliaethau i ballu, tafodau i beidio, a gwybodaeth i ddislanu, ryw bryd neu gilydd; ond y mae amser eu difflaniad yn beth i'w ystyried yn bwyllog. Os dywed rhywun nad oeddynt yn bodoli ar y ddaear yn y canrifoedd diweddf, a thrwy hyny fod yn rhaid eu bod wedi peidio, byddaf yn barod i gyfaddef hyny yn wirionedd; ond ni allaf addef fod gan Dduw eglwys ar y ddaear hebddynt, os nad oedd yr eglwys hono wedi cael yr hyn sydd yn berffaith yn eu lle. Doniau i beidio yn yr eglwys oeddynt, ac nid allan o honi; ac os dygwyddodd “ymadawiad”* yr eglwys cyn y canrifoedd diweddf, yr oedd yn rhesymol fod y doniau dan sylw wedi ymadael hefyd, o herwydd na fuasent o un gwasanaeth i eglwysi o drefniad dynion.

Ond rhag ofn fod yr “ymadawiad” yn dramgwydd i neb, neu yr adferiad gan angel yn ffolineb, boddlonaf adael hyny yn llonydd, os gwna y darlennydd gyfaddef fod gwir Eglwys Iesu Grist

* 2 Thes. ii, 3.

ar y ddaear yn bresennol; ac yr wyf yn meddwl fod pawb yn barod i gredu hyny. Bydd cyfaddefiad felly yn well nâ dim arall, a gellir ymresymu yn decach oddiarno.

Yn awr, gellir sylwi fel hyn: os yw eglwys Iesu Grist ar y ddaear yn bresennol, mae yn rhaid ei hod yn meddu yr hyn sydd o ran, neu yr hyn sydd *berffaith*; ac nas gall feddu y ddau beth hyn ar yr un pryd. Mae pob dyn rhesymol yn rhwym o gyfaddef hyna; oblegid y mae Paul yn dweyd y bydd yr hyn sydd o ran yn cael ei ddilen, wedi i'r hyn sydd berffaith ddyfod. Os felly, y mae yn rhwydd ddigon i bawb ganfod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd o ran, a'r hyn sydd berffaith; canys y maent yn ddiaw yn dra gwahanol i'w gilydd: y mae un yn amherffeithrwydd, a'r llall yn berffeithrwydd, a lle byddo un nis gall y llall fod yn hefyd, heb ei fod yn amlwg i bawb. Ond cyn y gall neb farnu yn iawn pa un ai yr hyn sydd o ran, neu yr hyn sydd berffaith sydd gan yr eglwys yn bresennol, y mae yn anghenrheidiol gwybod yn gywir pa beth a feddyliai Paul wrth y geiriau hyny; ac er mwyn cynnorthwyo y darlennydd onest i chwilio drosto ei hun, caf sylwi, yn gyntaf, pa beth a feddyliai yr apostol wrth yr "hyn sydd o ran."

I. *Pa beth sydd i'w olygu wrth "YR HYN SYDD O RAN?"*—Dywed yr apostol, "Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo." Mae hyna yn dangos mai y prophwydoliaethau, y tafodau, a'r wybodaeth a grybwyllir yn flaenorol, oedd yn gwneyd i syny yr hyn sydd o ran, ac mai doniau felly oedd i ddarfod pan ddeuai yr hyn sydd berffaith. Efallai fod pawb yn barod i addef hyn; ond gwn fod llawer o farnau, er hyny, mewn perthynas pa beth sydd i'w olygu wrth brophwydoliaethau, tafodau, a gwybodaeth; ac o ganlyniad, caf helpu y darlennydd yn fanylach, fel y deallo yn drwyadl yr hyn sydd o ran. Os bydd rhai o enwadau ein gwlad am brofi fod mynegi pethau i ddyfod, llefaru mewn ieithoedd dyeithr, a chyfieithu, &c., wedi darfod yn yr eglwys, adroddant fel hyn:—"Pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi e ddiffiana." Ond, os byddant am honi fod prophwydo, llafaru â thafodau, a chyfieithu, &c., yn eu heglwysi hwy dywedant mai esbonio neu bregethu yw ystyr prophwydo, cablwr yn gweddio ac yn moli Duw yw y tafodau dyeithr, a'u duwinyddion dysgedig hwy yw y rhai sydd yn cyfieithu. Dyna fel y mae atrawon y wlad yn ymresymu: pan y maent am i brophwydo

fod yn eu heglwysi hwy, dywedant mai esbonio ydyw; a phan y maent am fod y ddawn i fynegi pethau i ddyfod, bloeddiant, "Prophwydoliaithau a bailant;" ac felly am y doniau ereill. Fe wel pawb, trwy chwilio yr ysgrythyrau, ynfydrwyld dysgedigion ein gwlad, y rhai dynt "yn dysgu bob amser, ac heb allu dyfod un amser i wybodaeth y gwirionedd." Yr oedd Duw wedi gosod bugeiliaid ac athrawon i bregethu a dysgu, fel na fuasai anghen am brophwydi hefyd i gyflawni yr un gwaith. Gorchwyl neillduol prophwydi, yn mhob oes o'r byd, oedd mynegi pethau i ddyfod; a gwaith Ioan, y prophwyd diweddaf a wyddom am dano, yn ei Ddadguddiad, oedd mynegi pethau i ddyfod, ac nid pregethu neu esbonio. Fe w'yr pob dyn yn ei iawn bwyll hefyd, mai nid pregethu neu esbonio oedd merched Phillip, a'r gwagedd hyny yn eglwys Corinth; "canys ni chaniatawyd iddynt lefaru" yn yr eglwys, eithr i ymfyn â'u gwyr gartref. Yn awr, os mai esbonio oedd prophwydo yn y dyddiau gynt, pabam y gwaherddid y gwagedd i lefaru yn yr eglwys; ac os oeddynt am dylsgu dim, am ymfyn a'u gwyr gartref? I ba ddyben y rhoddid y ddawn brophwydol i wragedd, os nad oeddynt i gael esbonio neu bregethu, a hyny yn mhllith y brodyr? Y gwiryw, yr oedd ganddynt hawl i fynegi pethau i ddyfod, fel merched Phillip, hyd y nod yn nghyfeillach apostol a brodyr ereill, ac hefyd i weddio, ond bod yn eafalus i orchuddio eu penau; eithr nid oedd hawl ganddynt i lefaru mewn ffordd o ddysgu neu esbonio, yn yr eglwys na gartref, ond gallent ofyn rhywbeth i'w gwyr yn y lle olaf. Heb chwilio dim yn mhellach, mae hyna yn ddigon i brofi mai mynegi pethau i ddyfod yw y prophwydo; a'r sawl a ewyllysio wybod ychwaneg, darllened "Y Doniau Ysbrydol yn Mrawdlys y Gelyn," a thraethodau ereill. Yr oedd y prophwydoliaethau oll o ran ac yn amherffaith, yn neillduol yn eglwysi Corinth a Thessalonica; canys fe orfu i Paul yno orchymyn iddynt, "Na ddirmygwch brophwydoliaethau;" ac yr oedd y tafodau mor wael hefyd yn eu golwg, nes yr oeddynt weithian yn gwahardd eu gilydd i lefaru â thafodau. Nid yw yn debyg, os mai pechaduriaid yn gweddio yw y tafodau, y buasai Paul yn dweyd, "Oni bydd cyfieithydd, tawed yn yr eglwys; eithr llefared wrtho ei hun, ac wrth Ddaw." Yr oedd Paul, un o'r pechaduriaid penaf, yn gweddio unwaith cyn sael ei dderbyn yn saelod; ond ni ddyweda yr ysgrythyr mai lefaru â thafodau oedd hyny. Ond y mae ymresymu fel hyn yn waith ofer i ddarllenydd diragfarn, canys fe wol efe yn eithaf â

pa beth yw prophwydoliaeth, tafadau, gwybodaeth, cyfieithiad, &c., iel nad oes achos treulio ychwaneg o bapwr i'w disgrifio. Pethau o ran oeddynt oll, a graddiau mwy neu lai o amherffeithrwydd yn rhwym o fod ynglyn â hwynt yn barhaus. Yr oedd y rhai a brophwydent i brophwy o "yn ol cyssondeb y ffydd," a'r rhai a lefarent â thafodau i wneuthur hyny ar gylch, fel na buasent yn gau brophwydo, nac yn achosi anghydfod wrth lefaru yr un pryd. Er fod Ysbryd Duw yn berffaith y pryd hwnw, fel yn awr, etto yr oedd ysbrydion y saint mor bell o fod yn berffaith ag ydyw ysbrydion saint yr oes hon; ac hyny oedd y prif achos o amherffeithrwydd yn eu doniau. Daugosai Paul y gallai y saint gynt ymberffeithio eu hunain, i raddau mawr, trwy "*geisio* rhagori tuag at adeiladaeth yr eglwys," a thrwy "weddio ar iddynt *allu* cyfieithu." Po fwyaf yr ymdrechent i ymarfer doethineb yn y doniau ysbrydol, mwyaf i gyd yr oeddynt yn ymgyrhaedd at berffeithrwydd. Er fod eglwys Corinth yn feddianmol ar Ysbryd Duw yn ei amrywiol ddoniau, etto heb ddysgeidiaeth Paul ni fuasai y cyfan ond yn achosi anghrediniaeth a dinystr yn eu plith; a gallai anghydfod heb ei fath fodoli yn yr eglwys hono, a'r cyfan i raddau dan arweiniad yr Ysbryd hefyd, ac etto heb fod Duw yn awdwr anghydfod, ond tangnefedd. Pethau hytrach diwerth a fuasai y doniau ysbrydol yn mhlith y saint, oni bai eu bod yn cael eu dysgu pa fodd i'w harferyd. Y sawl sydd au wybodaeth helaethach, gall ei chael yn I Cor. xii—xiv, lle y darlunir y cyfan yn eglurach nag mewn un esboniad o eiddo dynion anysbyrdoledig. Fe welwn, ynté, mai pethau o ran ac amherffaith oedd y gwahanol ddoniau ysbrydol, ac mai hwynt-hwy oedd Paul yn feddwl wrth dâweyd "yr hyn sydd o ran;" "canys," medd efe, "o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo."

Gobeithiaf yn awr fod y darlennydd diduedd yn amgyffred yn iawn pa beth sydd i'w feddwl wrth "*yr hyn sydd o ran*," ac y gall wybod pa blaid neu enwad sydd yn arddel prophwydoliaethau, tafadau, a gwybodaeth, yn eu heglwysi, yn yr oes hon, fel cynt. Nid oes achos ei hysbysu etto, nas gall yr hyn sydd o ran fodoli gyda'r hyn sydd berffaith, canys fe w'yr yn ddigon da. Y peth mesaf iddo i fod yn sicr o hono yw hyn; sef "*pan* ddelo yr hyn sydd berffaith," y bydd "*yr hyn sydd o ran*" yn cael ei ddileu; ac nid cyn nac wedi hyny. Os na ellir cael gafaél ar yr hyn sydd o ran yn mhlith gwahanol grefyddolion yr oes, na chan

Saint y Dyddiau Diweddf, yna mae yn dueddol i rywun feddwi fod yr hyn sydd o ran wedi myned heibio, a bod yr hyn sydd *berffaith*, pa beth bynag yw, yn bodoli. Ond, rhag fod neb yn cael ei gam-arwain, ymdrechaf ddangos yn

II. *Pa beth sydd i'w olygu wrth yr "HYN SYDD BERFFAITH?"*— Mae gan ddynion lawer o feddyliau ynghylch "yr hyn sydd berffaith." Un o'r barnau mwyaf poblogaidd yw, fod "yr hyn sydd berffaith" yn y nefoedd, a bod yr hyn sydd "o ran" yn dar fod yn union pan ymadawo dyn â'r fuchedd hon, ac yna fod "yr hyn sydd berffaith" yn dyfod i'w wyddfod yn y nefoedd. Dyna farn Mathew Henry yn ei esboniad, ynghyd â'r rhan amlaf o'r esbonwyr ereill. Dyweda Mathew Henry, wrth esbonio "yr hyn sydd o ran," a'r "pethau bachgenaidd," mewn cyferbyniad i'r hyn sydd berffaith a pherthynol i "wr," fel hyn:—"Y fath yw y gwahaniaeth rhwng y ddaear a'r nef. Y fath olygiadau cyfyng, y fath dybiau cymmysglyd ac aneglur am bethau, sy gan blant, mewu cymbariaeth i ddynion wedi tyfu! Ac mor naturiol y mae dynion, pan fo rheswm wedi addfedu, yn dirmygu ac yn gadael eu meddyliau plentynaidd, yn eu bwrw ymaith, yn eu gwrthbod, ac yn eu cyfrif fel dim! Fel hyn y tybiwn ni am ein doniau a'n cyrhaeddiadau a brisiwn fwyaf yn y byd hwn, pan ddelom i'r nef." Dyna fel y llefara y gwr dysgedig uchod. Yn awr, fe welwn pan fyddo rhyw Gristion farw, fod "yr hyn sydd berffaith" yn ei ymyl, a bod y prophwydoliaethau, y tafodau, a'r wybodaeth (sef yr hyn sydd o *ran*) i gael ei ddileu yn union o'r eglwys! Ow! y fath ffolineb! Paham nad oedd yr hyn sydd berffaith wedi dyfod cyn i Paul ysgrifenu geiriau y testun, pan yr oedd cymnaint o'r saint wedi marw? a phahan yr arferwyd yr hyn sydd o ran yn yr eglwys wedi i'r peth berffaith ddyfod? Pa fodd hefyd y mae yr hyn sydd berffaith yn gallu dyfod mwy nag unwaith? a pha fodd y darfyddodd yr hyn sydd o ran fwy nag unwaith yn yr amser gynt, a dar fod yn gwbl hefyd yn y dyddiau hyn, cyn fod yr hyn sydd berffaith wedi dar fod dyfod? Mae eisieu atebion i ofyniadau fel yna; ond pwy sydd i'w rhoddi? Os dywed rhywun fod yr hyn sydd berffaith heb ddyfod i'w feddiant ef, yna rhaid iddo addef fod arno anghen yr hyn sydd o *ran*, hyd nes caſo yr hyn sydd berffaith; a beth fydd hyny ond dweyd y dylai prophwydo, llefaru â thafodau, &c, fod yn yr eglwys yn awr fel cynt? Ond, mi welaf nad yw y darlennydd yn foddla'n arddel y fympwy Haenorel, er mor boblogaidd ydyw, eithr fod yn

rhaid fod rhyw farn amgenach o lawer yn cael ei mahwysiadu gan grefyddwyr ein gwlad; a chaf finnau frysio i chwilio am ryw farn arall a fyddo yn fwy rhesymol.

Yr unig farn boblogaidd arall am "yr hyn sydd berffaith," am a wn i am dani, yw yr un ganlynol; sef mai y TESTAMENT NEWYDD yw "yr hyn sydd berffaith." Mae y farn newydd hon yn dyfod yn fwy blodeuog bob dydd, o herwydd y mae yn ymddangos lawer yn fwy rhesymol na'r farn arall. Buasai dda genyf pe byddai y llyfrau sydd yn darlunio y farn hon wrth fy ymyl; ond gan nad ydynt, fe'm hesgusodir rhag gwneyd un cyfeiriad, gan fod y farn mor adnabyddus a phoblogaidd. Yr achos o fod y farn hon yn fwy rhesymol na'r llall, yw, o herwydd i'r "hyn sydd o ran," sef y doniau ysbrydol, i ymadael oddiar y ddaear, yn agos i'r amser y casglwyd yr ysgrhythrau santaidd yn un llyfr; a thrwy hyny creda llawer mai y Testament Newydd sydd i'w olygu wrth "yr hyn sydd berffaith." Ond cyn credu na chondemnio y farn hon y mae yn ddyledswydd arbenig ar bawb i chwilio i mewn drosto ei hunan, os mai y Testament yw y perffethrwydd dan sylw, neu beidio. Fe allwn gredu hyny yn rhwydd, fe ddichon; ond fe ddylem gofio bob amser fod pob crediniaeth yn cael ei sylfaenu yn ol y dystiolaeth a roddir. Pan welodd yr Indiaid Americanaidd bowdr gŵn y tro cyntaf gan yr Ewropiaid, credasant y rhai hyny yn dweyd y buasai yn tyfu ond ei hau yn y ddaear; ond wedi trelo hyny, daethant i gredu yn hollol wahanol. Felly yn gywir y mae ynghylch pethau crefyddol; y mae dynion yn credu yn ol y dystiolaeth a'r prawf a roddir iddynt gan ereill. Dylai hyny ein dysgu i fod yn bwylllog ynghylch credu y pethau a glywwn; ac un peth a glywwn yw, mai y Testament Newydd yw yr hyn sydd berffaith. Mae hyny yn ymddangos yn dra thebyg, fel yr ymddangosai y powdr gŵn i'r Indiaid yn debyg i rywbeth a allai dyfu gystal â hadau cenin. Ond y mae eisieu chwilio am rŵg o dystiolaethau nag sydd wedi eu rhoddi hyd yn hyn: a chan hyny, gadewch i ni *dissect* y Testament Newydd, er cael gweled o ba beth y mae wedi ei gyfansoddi, pa un ai peth perffaith neu amherffaith ydyw. Yn gyntaf, cawu dynu yn rhydd ei bedwar Efengylwr ef, sef Mathew, Marc, Luc, ac Ioan. Pa beth yw defnydd y rhai hyn, wyddis? Atebaf, mae hanes "dechreu efengyl Iesu Grist, Fab Duw," ae nid dim arall. Dywed Luc "i lawer gymmeryd mewn llaw osod ~~allan~~ mewn trefn draethawd am y pethau a gredir yn ddianmau yn

ein plith," ac iddo yntau "weled yn dda" i wneuthur hyny hefyd er mwyn yr ardderchocaf Theophilus, fel y caffai hwnw wybod sierwydd am y pethau ei ddysgwyd ynddynt. Nid oes un lle i gredu fod Duw wedi gorchymyn i neb o honynt ysgrifenu dim, nac ychwaith fod yr Ysbryd yn eu harwain i ysgrifenu pethau nad oeddynt hwy yn wybod yn flaenorol: ac nid yw yn debyg y buasai Duw yn penodi pedwar (a dywed Luc fod "*llawer*" ereill hefyd) i ysgrifenu pob o hanes; canys fe fuasai un hanes yn fwy dealladwy na llawer, yn enwedig os byddai y llawer hyny yn croesi eu gilydd. Yr ydym yn canfod fod yr efengylwyr yn croesi eu gilydd mewn rhai pethau, yr hyn a ddengys fod gwybodaeth rhai o honynt yn fwy amherffaith na'u gilydd. Bydd un enghraifft, efallai, yn ddigon i foddleni y darlennydd, rhag gwastraffu geiriau yn afreidiol. Yn Math. xxviii, 2—5, dywedir mai un angel a welodd y gwraedd wrth fedd ein Harglwydd, wedi ei adgyfodiad, tra dyweda Luc (xxiv, 4) fod yno *ddau*. Mae yr efengylwyr yn frith o gamsyniadau o'r fath, er mai dyben pob un oedd darlunio pob peth fel y dygwyddodd. Nid yw hyny ym un rhyfeddod, canys addefant hwy, "Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro. Y rhan nesaf o'r Testament Newydd yw llyfr yr Actau, yr hwn nid yw amgen na hanes o weithrededd yr apostolion. Ni roddwyd gorchymyn i ysgrifenu hwn ychwaith: Luc a ddewisodd gymmeryd hyny mewn llaw, fel ei Efengyl, er mwyn rhoddi hanes helaethach am Gristionogaeth. Wedi hyn yr ydym yn dyfod o hyd i lythyron neu epistolau Paul at y Rhufeiniaid, y Corinthiaid, Galatiaid, Ephesiaid, Phillipiaid, Colossiaid, Thessaloniaid, ag at Timotheus, Titus, a Philemon, ynghyd ag at yr Hebraeid. Ni dderbyniodd Paul ychwaith un gorchymyn i ysgrifenu yr holl lyfrau a enwyd. Ymddengys yn eglur fod y rhan fwyaf o'r llythyron hyn wedi eu hysgrifenu at y gwahanol eglwysi, o herwydd nad allai Paul fyned atynt yn bersonol. Pe buasai efe yn gallu ymweled â phob eglwys, pan oedd arno eisien eu dysgu, mae yn ddiau y buasem ni heb un o'r llythyron hyn yn ein meddiant; canys pan oedd efe yn ymweled â hwynt, er ei fod yn dysgu pethau llawn mor ddwyfol, etto nid oedd dim o honynt yn cael eu hysgrifenu, ond eu cadw yn draddodiadol. Wel, yr ydym yn gweled pa beth ydyw defnydd llythyron Paul—mai dysgeidiaeth Paul i'r eglwysi pan yn *absenno?* oedd y cyfan; ac nid y'm i farnu fod dysgeidiaeth absennol yn rhagorach na dysgeidiaeth bresennol. Mae yn ddiau fod y ddysg-

oidiaeth a roddai ef yn bersonol yn gwbl mor anghenrheidiol i'r eglwysi hyny, ac hefyd i ni, os mynir, ag oedd y ddysgeidiaeth yn y llythyron. Ychwanegiad oedd yr holl lythyron at yr hyn oedd Paul wedi ddysgu yn bersonol. Dyna yr achos fod "bedyddio dros y meirw," ac athrawiaethau cyffelyb, mor annealladwy i ddysgedigion yr oes hon. Pe buasai Paul wedi ysgrifenu at y Corinthiaid ar y cyntaf, yn lle ymweled â hwynt, buasai genym wybodaeth ysgrifenedig, efallai, yn darlunio pa beth yw bedyddio dros y meirw. Nid oedd Paul yn ysgrifenu bob tro ond yr hyn a dybiai nad oeddynt hwy yn wybod, a'r hyn a welai yntau yn anghenrheidiol. Nid yr un peth, ychwaith, oedd yn gwneyd y tro i bob eglwys. Yr oedd pob dysgeidiaeth yn cael ei chyfranu yn ol yr alwad am dani: wedi cael gwybod un peth, deuai achos i gael gwybod peth arall. Yr oedd llawer peth yn cael ei ddysgu i'r Cenedloedd, ag a fyddai yn beryglus, neu yn afreidiol, i'w ddysgu i'r Iuddewon; ac felly am wahanol eglwysi.

Yn awr, dyma ni yn gwybod i raddau pa beth yw natur, dyben, a chynnwysiad llythyron Paul; gan hyny, cawn ofyn vn y man hyn, A gawsom ni rywfaint o'r "hyn sydd berffaith," tybied? Ond gwell i ni chwilio y Testament oll, rhag ofn mai tua'r diwedd y mae'r perffeithrwydd yn llechu. Yn ein hymchwiliad pellach yr ydym yn cyfarfod ag epistolau bychain Iago, Pedr, Ioan, a Judas, y rhai nid ydynt oll yn fwy nâ llyfr yr Actau; ond pe byddent, ni chredaf eu bod yn fwy perffaith. Nid oedd un gorchymyn i ysgrifenu y rhai hyn etto. Y maent yn lythyron cyffelyb i'r lleill, ond eu bod yn fwy cyffredinol; a chan hyny cawn eu gosod o'r neilldu, heb gael ynddynt ddim rhagorach nag yn y lleill. Yn awr, ynte, yr ydym bron cwpla *dissecto* y cyfan; nid oes dim ond llyfr y *Dadguddiad* yn aros ar ol. Mae rhywbeth yn enw y deryn hwn o'r Testament yn deilwng o sylw. Nid yw mor debyg i'r lleill. Mewn gwirionedd, efallai mai hwn yw yr "hyn sydd berffaith;" canys dywedir ei fod rywle rhwng y ddaa glawr sydd i'r Testament. Wrth chwilio y *Dadguddiad*, cawn fod Ioan yn alltud ar ynys Patmos, a thra yno iddo glywed "llef fawr fel llais ngorn, yn dywedyd, Mi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf: a'r hyn yr wyt yn ei weled, ysgrifena mewn llyfr, a danfon i'r saith eglwys sydd yn Asia." Yn ol hyna, cafodd Ioan orchymyn pendant i ysgrifenu; a phwy a wŷr nad yr hyn a ysgrifennodd efe yw yr hyn sydd berffaith? Cawn weled ond chwilio yn fanwl. Yn nechreu a diwedd y llyfr hwn, ya

gystal â thrwyddo oll, y mae Ioan yn sicrhau mai *prophwydoliaeth* ydyw. Wel, os addefir mai prophwydoliaeth yw y llyfr hwn, yna y mae yn rhwydd ddigon i gael allan os mai "yr hyn sydd berffaith" yw hyn. Dywed Paul, "Canys *o ran* y gwyddom, ac *o ran* yr ydym yn *PROPHWYDO*." Yn awr, gan mai *o ran* yr oedd pawb yn prophwyo, nid yw yn bosibl fod llyfr y Dadguddiad, mwy na'r llyfrau ereill, yn *berffaith*; a dyna ni wedi *dissecto* yr holl Destament, ac heb gael un rhan o hono yn berffaith! Ond, dichon y dywed rhywun, mai nid *un* rhan sydd yn cyfansoddi perffeithrwydd, ond y cyfan gyda'u gilydd; ac efallai mai y prawf a rydd yw y geiriau hyn—"Canys yr wyf yn tystiolaethu i bob un sydd yn clywed geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, Os rhydd neb ddim at y pethau hyn, Duw a rydd ato ef y plâu sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn," &c. Mae rhai, anwyl ddarllenyydd, mor hurt â meddwl i Ioan gasglu yr holl efengylau, epistolau, a'r llythyron, o'r gwahanol eglwysi yn mhob man, a'u cludo ganddo yn faich mawr o femrwn, pan gafodd ei alltudio i ynys Patmos; ac iddo yno eu trefnu ar eu gilydd yn bentwr mawr, a memrwn llyfr y Dadguddiad yn uchaf, ar yr hwn yr ysgrifennai Ioan am i neb beidio ychwanegu dim ato, na thynu dim oddiwrtio, ar ei berygl! Mae pob dyn o synwyr cyffredin yn deall mai "geiriau *prophwydoliaeth* y llyfr hwn" (sef y Dadguddiad, a hwnw yn unig) a feddyliai Ioan; ac mai y "Dadguddiad," ac nid y Testament Newydd, oedd Ioan i ddanfôn at saith eglwys Asia. Pe buasai Ioan yn ychwanegu dernyn o epistolau Paul at lyfr ei *brophwydoliaeth*, mae yn ddiâu y buasai efe yn fwy o droseddwr na neb arall. Nid oedd hawl gan Ioan i ddanfôn dim, fel peth oddiwrtio Dduw, at eglwys Asia, ond yr hyn a ddangosai ac a draethai yr angel wrtho. O ran dim gwaharddiad sydd ar ddiwedd y Dadguddiad, gellir ysgrifenu Beibl etto, ond gofaiu peidio ychwanegu dim at y *brophwydoliaeth* hono a ysgrifennai Ioan at eglwys Asia: ond gallai Duw, pe ewyllysiai, ychwanegu at y Dadguddiad, heb ofyn i neb;—i *ddyn* yn unig mae y gwaharddiad i beidio. Os ees rhywun am gael prawf arall, mai y Dadguddiad yn unig a feddyliai Ioan, darluned (yn mhen. xxii, 10) yr hyn a ddywed yr angel wrtho, sef; "Na selia eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon." Sylwer fod y rhanau ereill o'r Testament wedi eu hysbysu yn yr eglwysi, cyn i'r angel ddyfod o'r nefoedd i ddweyd wrth Ioan am beidio selio geiriau y llyfr: a chan fod y llyfrau ereill wedi eu hamlygu, nid oedd achos dweyd am beidio eu selio; ond ~~am~~

lyfr y Dadguddiad, ag oedd yn cael ei ysgrifennu ar y pryd, yr oedd yn eithaf rhesymol. Dyna ddigon, feddyliaf, ar hyn yn bresennol. Caf yn awr ymholi os ydyw yn ddichonadwy i ryw nifer o lyfrau neu lythyron ag sydd wedi eu hysgrifenu gan ddynion agored i lithriadau, a rhai a ddywedent mai "o ran" y gwyddent, ac mai "o ran" yr oeddynt yn *prophwydo*—i allu byth gwneyd i fyny "yr hyn sydd berffaith"? Ai o anamberffaith-derau y cyfansoddir perffeithrwydd? Os mai, yna "yr hyn sydd berffaith" yw esboniadau yr oes! Os mai "o ran" y gwyddai Paul a'i frodyr bob peth, pa fodd yr oedd yr hyn a ysgrifentent yn *berffaith*? A phe byddai yr oll a ddarfu iddynt ysgrifenu, er fod yr oll o ran, yn cyfansoddi perffeithrwydd, pa fodd y gallai y Testament fod yn berffaith, tra mae llawer o hono yn eisieu? (Gwel I Cor. v, 9; Judas 3, 14; Luc i, 1, 2, &c). Os oedd Ioan neu Paul yn prophwydo dan ddylanwad yr Ysbryd, *o ran* yn hollol y gwneleant hynny; os oeddynt yn gwybod rhywbeth, *o ran* y gwyddent; neu os oeddynt yn gweled, "trwy ddrych, mewn dammeg," y gwelent, er hynny. Nid yw yn bosibl fod yr hyn a ysgrifentent yn dyfod yn berffaith rywbryd wedi i'r inc sychu, onide yn yr inc yr oedd y rhinwedd; canys ni allai fod yn yr apostolion, a hwythau yn tystio mai "o ran" yr oeddynt hwy ya gwneyd pob peth. Yn awr, os mai *o ran* yr oedd yr apostolion ac ereill yn *gwybod* eu hunain, *o ran* hefyd yr oeddynt yn dysgu ereill; ac os mai o ran y dysgent ereill ar dafod, rhaid mai o ran hefyd y gwneleant hynny mewn ysgrifen; ac os mai o ran oedd eu hysgrifeniadau i gyd, pan yn wasgaredig, rhaid mai o ran hefyd y cawsant eu casglu; ac os mai o ran y casglwyd hwynt, o ran hefyd y copiwyd, y cyfieithwyd, yr argraffwyd, ac y gwerthwyd hwynt i ni; ac ni allwn ddweyd llai nad "*o ran*" hefyd yr ydym yn medru eu darllen! Pa le, meddwch, mae yr "*hyn sydd berffaith*" yn lletya yn y Testament Newydd?

Ond, golyger ein bod yn addef mai y Testament Newydd yw yr "*hyn sydd berffaith*," pa faint callach fydd neb, wed'yn? Beth yw yr ennill i'r genedlaeth hon wedi cael yr hyn sydd berffaith? Gwyddom fod y Cristionogion yn amser Paul, er na feddent ddim ond yr hyn oedd "*o ran*," yn galw eu gilydd yn SAINT; ond y mae Cristionogion yr oes hon, er wedi cael yr "*hyn sydd berffaith*," yn gwrthod gwisgo yr enw, o herwydd na feiddiant hwy ystyried eu hunain yn ddigon perffaith, hyd nes y cyrhaeddant y nefoedd!! Yn hytrach, gwisgant hwy yr enwau Bedyddwyr, Independiaid,

Wesleyaidd, Methodistiaid, Eglwyswyr, Pabyddion, Sosiniaid; Crynwyr, a chant o enwau ereill, i ddangos fod yr hyn sydd *o ran* wedi cael ei ddileu, a'r hyn sydd BERFFAITH wedi dyfod!—neu, mewn geiriau ereill, i ddangos eu bod wedi “ymgyfarfod oll yn *undeb ffydd*, a gwybodaeth Mab Duw, yn WR PERFFAITH, at fesur oedran cyflawnder Crist!” Ond, O ffolineb; ie, ffolineb dyn! Pa le y clybuwyd am y fath benchwibandod erioed o'r blaen? O, brysur, ddarllenlydd, a wyt ti ddim wedi cynhyrfu? Dynion yr oes hon yn profesu yr “hyn sydd berffaith,” a medru gweled “wyneb yn wyneb,” a hwythau erioed heb weled cymmaint â thu eefn angel, nac hyd y nod flaen ei aden (os medda aden—y dynion na welsant angel sy'n ei lunio felly)! Y gwirionedd yw, gwyddant nad yw yr “hyn sydd berffaith” a feddiaunant, yn ddim amgen na phapyr ac inc; nid ydynt yn honi dim arall yn berffaith; ac am eu hunain, dywedant eu bod yn lawer mwy anmherffaith na'r saint gynt, y rhai a wyddent yn dda nad oeddynt hwy yn agos perffaith. Wel! wel! ynte, pa beth y mae doethion ein gwlad yn freuddwydio yn ei gylch? A awgrymodd Paul mai rhywbeth fel llyfr oedd “yr hyn sydd berffaith?” Naddo erioed; eithr dywedodd, “Canys gweled yr ydym [sef dynion] yr awrhon trwy *ddrych*, mewn dammeg; ond yna, *wyneb yn wyneb*: yn awr yr adwaen *o ran*; ond yna yr adnabyddaf megys y'm *hadwaenir*.” Dweyd oedd efe ei fod ef ac ereill, fel bachgen y pryd hwnw, yn gwybod o ran, yn llefaru neu brophwydo o ran, yn meddwl o ran, yn adwaen o ran, ac yn gweled fel trwy *ddrych* yn aneglur; ond fod amser i ddod pan y byddent fel “gwr,” wedi rhoi heibio y pethau bachgenaid, a'r hyn sydd berffaith yn eu mediant, a'r ell yn gweled “wyneb yn wyneb,” ac yn adnabod megys eu hadwaenir. Nid oes un llyfr hyd yn hyn wedi gweled wyneb neb, nac yn adnabod y sawl sydd yn ei adnabod ef, ac ni wna hyn byth. Yn y saint, ac nid mewn llyfrau, mae y cyfnewid- iad o'r “hyn sydd o ran,” i'r “hyn sydd berffaith” i gymmeryd lle. Plant Duw oedd yn gwybod o ran, a phlant Duw sydd etto i wybod yn berffaith, ac i feddu gwybodaeth Mab Duw. Canlyn- wyr dirmygedig yr Iesu oedd yn gweled “trwy *ddrych*, mewn dammeg; a hwynt-hwy etto sydd i weled “wyneb yn wyneb:” a'r sawl oedd yn adwaen o ran, sydd hefyd i adnabod megys eu hadwaenir, ac nid llyfr, neu lythyren farw. I'r Saint, fel corff neu eglwys, y mae yr hyn sydd berffaith i ddyfod yn etifeddiaeth; a'r Saint, fel y cyfryw, oedd yn meddu yr hyn sydd o ran.—Yr

oedd yr hyn sydd o ran yn perthyn i'w cyflwr bachgenaidd; oad dywedai Paul, pan y deuent yn "wr," y buasai yr hyn sydd berffaith yn cael ei roddi iddynt yn etifeddiaeth. Nid ar unwaith y daw yr eglwys yn "wr;" mae yn rhaid iddi wrth y pethau bachgenaidd ac o ran am hir amser, ond nid am byth—eithr "*hyd oni ymgyfarfyddont oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn WR PERFFAITH, at fesur oedran cyflawnder Crist*" (Eph. iv, 13). Pan ddaw yr eglwys yn "wr" felly, dyna yr amser y daw yr hyn sydd *berffaith* i'w rhan, ac nid cynt. Bydd yn fachgen byd hyny, a bydd yn rhaid iddi wrth y teganau bachgenaidd, sef y prophwydau y llefaru, a'r gwybod o ran. Yn awr, os yw yr eglwys yn bresennol yn meddu yr hyn sydd *berffaith*, yna mae enwadau y wlad yn "undeb y ffydd, a gwybodaeth Mab Duw," ac yn fwy na'r cwbl, "yn WR PERFFAITH, at fesur oedran cyflawnder Crist!" Ond, ai ffair fedydd Rymni yw yr ymgyfarfod? neu, ai yr Undeb Efengylaidd yw undeb y ffydd; neu, ai gwybodaeth y colegau yw gwybodaeth Mab Duw? neu, ai y Cholera, yr hwn a argyhoeddodd filoedd mewn un dydd, yw y gwr perffaith? Rhodder i mi esboniad gwell, a chredaf fel arall: hyd hyny credaf mai dyna yw perffeithrwydd yr enwadau.

Bellach, ddarllenwyd anwyl, os nad ydwyf wedi dy ddigio, gad-awa i mi ofyn, Pa le mae yr hyn sydd o ran, a pha le mae yr hyn sydd *berffaith*, yn yr oes bon? Nid yr hyn sydd o ran ac yn berffaith, yn ol mympwy dynion, a feddyliaf, ond yr hyn sydd felly yn ol disgrifiad ysbrydoledig yr apostol. Nid wyf yn apelio at dy ragfarn, neu dy draddodiad, ond at dy reswm goreu. Mae y peth eisieu ei benderfynu mewn doethineb. Na wrandawa ar glec ffyliaid, ond gwna brawf yn ofn Duw; canys mae y cyfan yn ennill neu yn golled i ti yn bersonol. Nac ofna, os argyhoeddir di, wisgo yr enw o Saint, canys rhai amherffaith a distadl fel dy hunan oedd yn ei wisgo gynt. Yn awr, pa un ai y nefoedd, neu y Testament Newydd, yn ol dy farn gydwytbodol di, yw yr hyn sydd *berffaith*? Neu, a wyt ti wedi dy argyhoeddi mai rhywbeth arall ydyw? Os wyt ti o'r farn mai y nefoedd ydyw yr hyn sydd *berffaith*, a gredu di nad oedd nefoedd yn bod cyn i'r hyn sydd o ran ddarfod yn yr eglwys? canys dywed Paul, "Eithr pan *ddelo* yr hyn sydd *berffaith*, yna [wedi hyny] yr hyn sydd o ran a ddileir." Nid y nefoedd sydd i ddyfod atom ni, ond ni at y nefoedd; ond pe byddai mynediad Paul neu rywun arall i'r nefoedd, yn sicrhau iddo yr hyn sydd *berffaith*, ni ddylem ni sydd ar

y ddaear, serch hyny, roi heibio yr hyn sydd o ran, nes y byddom ninnau yn sicrhau yr un peth. Ond, efallai, mai y Testament Newydd sydd yn dy feddwl di, ddarllenydd, ac nid y nefoedd: eithr gwrandaw, pa faint perffeithiach a chyflawnach oedd yr hyn a ddysgai yr apostolion ar dafod ac mewn ysgrifen, cyn i'r hyn sydd o ran ddarvoud, nag yw perffeithrwydd y Testament yn awr? Mewn difrif, ai cynnyrch prophwydoliaethau, tafodau, a gwybod-aeth o ran, yw yr hyn sydd berffaith? A ydyw hyny yn bosibl? Ai dwylaw aflan y Pabyddion a fu yn lledrata neu yn casglu yr ysgrythrau ynghyd, oedd yn perffeithio yr hyn sydd o ran, a'i wneyd yn berffaith? neu ynte, ei gyfieithad a'i argraffiad? Sier ydyw na ellir dysgwyl llawer o berffeithrwydd o dan ddwylaw "d——l yr argraffydd;" canys yr wyf fi yn wybodus ddigon o hwnw. Ond, os mai yr hyn sydd berffaith, er y cyfan, yw y Testament Newydd, yna nid oes eisieu yr hyn sydd o ran mwyach; canys os pryna pob un Destament, gall efe neu ei lyfr weled wyneb yn wyneb, gwybod pob peth, gweled yn eglur, fel na bydd eisieu pregethwyr, esboniadau, pamphletach na dim arall byth mwy; a hyny fyddai nefoedd ar y ddaear!

Yn awr, wedi bod yn crwydro cymmaint, mae yn amser troi yn ol at y rhai sydd efallai yn methu ein dilyn, i ddangos yn fwy neillduol, mai nid y llyfr a fynega fod yr hyn sydd berffaith i ddyfod, yw y peth hwnw; ac i ddangos hefyd mai nid y nefoedd, o ba le y deilliai yr hyn sydd o ran, yw yr hyn sydd berffaith. Mae yr hyn sydd berffaith yn beth gwahanol hollol i'r dda: mae yn beth nas gall ddyfod, heb iddo ddyfod yn gyffredinol i'r sainta trwy'r nefoedd a'r ddaear. Beth sydd yn y nefoedd i berffeithio dyn, yn fwy nag sydd ar y ddaear? Os ydyw Ysbryd Duw yno, y mae ar y ddaear hefyd: os oes yno ysbrydion gwasanaethgar yn gweini, y maent yma yn gweini hefyd. A ydyw ymadawiad ysbryd â chorff yn dwyn perffeithrwydd i'r ysbryd, os bydd yn dda? Os ydyw, a yw ysbryd, pan yn ddrwg, ac yn ymadael â'i gorff, yn myned yn waeth? Yr ysbryd a fedda lywodraeth pan yn y corff, ac felly allan o'r corff hefyd; a pha beth yw y gwahaniaeth wedi myned i'r nefoedd? dim ond fod yr hen gorff yn cael ei adael ar ol? Ai yr hen gorff, tybied, yw yr hyn sydd o ran? Ateb hyny yn gadarnhaol, fyddai dweyd mai ysbrydion yw pawb oddiar dyddiau yr apostolion. Ond y mae modd i berffeithio pawb yn y corff ar y ddaear; canys fe roddes Duw "rai, yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai

yn fugeillaid ac yn athrawon; i *berffeithio* y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist, hyd oni ymgyfarfyddom OLL yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Daw, yn WR PERFFAITH, at fesur oedran cyflawnder Crist." Cyn byth y gall yr HOLL saint ymgyfarfod â'u gilydd, rhaid aros yr amser hwnw pan y daw Crist ar y cymylau gyda myrddiwn o'i saint, i ymgyfarfod yn yr awyr â'r saint fydd ar y ddaear, pan na fydd cyfleusdra i argyhoeddi neb wedy'n. Dyna yr amser y cyfarfyddir mewn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, ac y ca pawb ei weled wyneb yn wyneb, ac nid trwy ddrych, ac adnabod megys ei adwaenir, ac nid o ran: ie, dyna yr amser hyfryd y bydd yr *holl* saint yn "WR PERFFAITH," at fesur oedran cyflawnder Crist. Wedi hyny, yr hyn sydd o ran a ddileir yn llwyr; ac oni chipir papyr ac inc i'r lân, cânt hwythau eu dileu yr un modd gan y "tân ffiamllyd." Yn bresennol, mai Saint y Dyddiau Diweddaf ar y ddaear, a chanddynt apostolion, a phrophwydi, &c., i'w perffeithio â'u hadeiladu yn goffi i Grist, (Eph. iv, 11—13); a dysgwyllant, ar ol defnyddio digon ar y teganau bachgenaudd ac o ran, er ymarferiaid iachus ac anghenrheidiol i'r corff, i gynnyddu yn mhob cymmal cynnalïaeth, nes dyfod yn WR PERFFAITH, at fesur oedran cyflawnder Crist! a phryd hyny ni fyddant am berswadio neb fod eisieu yr hyn sydd *o ran* mwyach, canys fe fydd "yr hyn sydd *berffaith*" wedi dyfod. Yn awr, yr hwn sydd ganddo ddeall, deallied beth wyf wedi dystiolaethu.

PAN y delo'r "*hyn sydd berffaith*,"
 Peidia'n llwyr "*yr hyn o ran*,"
 Derfydd esboniadau dynion—
 Cilia'u dwlai yn y fan!
 Ni dd'wed neb mai'r nef yw hyny,
 Nac mai'r Testament ychwaith;
 Daw pob "*bachgen*" yn fwy hyddysg,
 Pan y cwpla Duw ei waith:
 Daw i ddeall mai nid llyfr
 Fydd yn gweled yn dai-lên,
 Ond mai'r Saint, ar ol ymuno
 Yn "*wr perffaith*," fel eu Pen.
 Ceisier 'nawr amgyffred hefyd
 Nad yw'r eglwys etto'n "*wr*,"—
 Nad yw'r doniau byth i beidio,
 Nes y delo felly'n siwr.